SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU
A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME
COMMISSIONER NORTH WALES

www.northwales-pcc.gov.uk

Glan y Don,
Bae Colwyn / Colwyn Bay
LL29 8AW

Rt Hon Yvette Cooper,
Home Secretary
Home Office
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

Ein Cyf / Our Ref: AD/HW/2427

29 Rhagfyr/ November 2024

Annwyl Ysgrifennydd Cartref,

Fel sy'n ofynnol drwy statud, rwyf yn ysgrifennu atoch yn ymateb i adroddiad Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS) ynglŷn ag ymateb plismona i ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Fe ganolbwyntiodd yr adroddiad ar natur gyffredinolrwydd a niweidiol ymddygiad gwrthgymdeithasol, a phwysigrwydd ymateb effeithiol yr heddlu a phartneriaid. Fe fydd lleihau a threchu ymddygiad gwrthgymdeithasol yn flaenoriaeth yn fy Nghynllun Heddlu a Throsedd newydd. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus helaeth, roedd yn eglur bod trechu ymddygiad gwrthgymdeithasol yn bwysig i drigolion Gogledd Cymru, ac rwyf efo'r nod o leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy ymdrin ag achosion gwraidd ymddygiad troseddol. Mae'n rhaid nodi nad oedd Heddlu Gogledd Cymru wedi ei arolygu fel rhan o'r adroddiad hwn.

Mae'r adroddiad wedi amlinellu pum argymhelliad ar gyfer y Prif Gwnstabliaid, er mwyn sicrhau bod heddluoedd yn ymateb i ymddygiad gwrthgymdeithasol yn effeithiol. Mae'r cyntaf a'r ail argymhelliad yn canolbwyntio ar gofnodi ac adnabod ymddygiad

Dear Home Secretary,

As required by statute, I am writing to you in response to His Majesty's Inspectorate of Constabulary, Fire and Resue Service's (HMICFRS) report on the policing response to antisocial behaviour.

The report focussed on the prevalence and harmful nature of antisocial behaviour and the importance of an effective police and partnership response. Reducing and tackling antisocial behaviour will be a priority within my new Police and Crime Plan. Following extensive public consultation, it was clear that tackling antisocial behaviour is important to the North Wales public and I aim to reduce antisocial behaviour by tackling the root causes of offending behaviour. It must be noted that North Wales Police were not inspected as part of this report.

The report has provided five recommendations to Chief Constables to ensure that forces are responding to antisocial behaviour reports effectively. The first and second recommendations focus on the recording of and identifying of antisocial behaviour when it is first

01492 805486
OPCC@northwales.police.uk
www.northwales-pcc.gov.uk

O 25 Mai 2018 ymlaen mae'r rheoliadau sy'n berthnasol i brosesu gwybodaeth bersonol wedi newid. Gelwir y rhain yn Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC). Darllenwch ein Polisi Preifatrwydd sy'n cynnwys gwybodaeth ar sut ydym yn prosesu'ch gwybodaeth bersonol ac "Eich Hawliau" o dan RhDDC.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg, a byddwn yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg pe dymunir. Ni fydd gohebu yn Gymraeg gyda'r swyddfa yma yn arwain at oedi.

As from 25 May 2018 the regulations relating to processing personal information has changed. These are called General Data Protection Regulations (GDPR). Please read our Privacy Policy which contains information on how we process your personal information and "Your Rights" under GDPR.

We welcome receiving correspondence in Welsh, and will respond to correspondence in Welsh if desired. Corresponding in Welsh with this office will not lead to delay.

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

www.northwales-pcc.gov.uk

Glan y Don,
Bae Colwyn / Colwyn Bay
LL29 8AW

gwrthgymdeithasol pan mae'n cael ei riportio yn wreiddiol. Rwyf yn fodlon bod cofnodion Heddlu Gogledd Cymru o dan Rheolau Cyfrif y Swyddfa Gartref o ansawdd uchel, ac rwyf hefyd yn fodlon bydd yr argymhellion hyn yn cael ei cyflawni'n gyflym, oherwydd yr arfer cofnodi o ansawdd uchel yn yr Heddlu.

reported. I am content that North Wales Police's recording under the Home Office Counting Rules is of a high quality and I am satisfied that these recommendations will be completed quickly due to high quality of recording practices within the Force.

Mae'r Arolygiaeth wedi argymell bod yr holl heddluoedd yn sicrhau eu bod yn asesu ac yn adolygu'r risg sy'n gysylltiedig â dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol yn drylwyr, o'r cyswllt cychwynnol hyd at ddiweddglo achos. Fe ddarganfu'r arolygiad bod ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael ei ystyried fel mân drosedd mewn rhai heddluoedd, sy'n gallu effeithio ar yr ymateb sy'n dilyn hysbysiad. Mae'r Arolygiaeth wedi annog newid mewn agweddau tuag at ymddygiad gwrthgymdeithasol, oherwydd yr effaith negyddol gallai ymddygiad gwrthgymdeithasol barhaus gael ar ddioddefwr.

The Inspectorate have recommended that all forces ensure that they properly assess and review the risk associated with victims of antisocial behaviour from initial contact to closure of a case. The inspection found that antisocial behaviour was considered as a low-level offence in some forces which can affect the response received following a report. The inspectorate has encouraged a change in the perception associated with antisocial behaviour due to the negative effect that prolonged antisocial behaviour can have on a victim.

Mae'r pedwerydd argymhelliad yn gofyn bod pob heddlu yn sicrhau bod pob cynllun datrys problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn nodi'r broblem yn gyflawn, eu bod yn cynnwys manylion digonol a'u bod yn cael eu goruchwylio'n effeithiol. Roedd yr Arolygiaeth wedi'i bodloni bod y mwyafrif o'r heddluoedd a gafodd eu hadolygu yn defnyddio dull datrys problemau er mwyn ymdrin â digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol.

The fourth recommendation request that all forces ensure that all antisocial behaviour problem solving plans fully specify the problem, contain sufficient detail and are effectively supervised. The inspectorate was encouraged that most of the forces reviewed used a problem-solving approach to deal with antisocial behaviour incidents.

Yn olaf, mae'r Arolygiaeth wedi gofyn bod pob heddlu yn rhoi hyfforddiant ymddygiad

Finally, the Inspectorate have asked all forces to give all neighbourhood policing teams antisocial

01492 805486
OPCC@northwales.police.uk
www.northwales-pcc.gov.uk

O 25 Mai 2018 ymlaen mae'r rheoliadau sy'n berthnasol i brosesu gwybodaeth bersonol wedi newid. Gelwir y rhain yn Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC). Darllenwch ein Polisi Preifatrwydd sy'n cynnwys gwybodaeth ar sut ydym yn prosesu'ch gwybodaeth bersonol ac "Eich Hawliau" o dan RhDDC.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg, a byddwn yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg pe dymunir. Ni fydd gohebu yn Gymraeg gyda'r swyddfa yma yn arwain at oedi.

As from 25 May 2018 the regulations relating to processing personal information has changed. These are called General Data Protection Regulations (GDPR). Please read our Privacy Policy which contains information on how we process your personal information and "Your Rights" under GDPR.

We welcome receiving correspondence in Welsh, and will respond to correspondence in Welsh if desired. Corresponding in Welsh with this office will not lead to delay.

Glan y Don,
Bae Colwyn / Colwyn Bay
LL29 8AW

gwrthgymdeithasol i'w timau plismona'r gymdogaeth, sy'n gwneud y defnydd gorau o adnoddau a chyngor ymddygiad gwrthgymdeithasol y Coleg Plismona. Fe ganfu'r adroddiad bod heddluoedd lle'r oedd y timau plismona'r gymdogaeth wedi derbyn hyfforddiant digonol yn arddangos gwell cyflawniad.

behaviour training that makes best use of the College of Policing's antisocial behaviour guidance and resources. The report found that forces where neighbourhood policing teams had received adequate training were better performing.

Rwyf yn fodlon bod pob un o'r argymhellion wedi eu rhannu gyda Thîm Atal Heddlu Gogledd Cymru, er mwyn eu hadolygu a'u hystyried, ac fe fydd yn cael ei reoli drwy gyfrwng y cyfarfodydd llywodraethu perthnasol. Fe fyddaf i'n monitro cynnydd yr Heddlu yng nghyflawni'r argymhellion hyn, drwy fy Mwrdd Gweithredol Strategol, lle 'rwyf yn dwyn y Prif Gwnstabl yn atebol.

I am content that each of the recommendations have been shared with the North Wales Police Prevent Team for review and consideration and will be managed by all relevant governing meetings. I will monitor the Force's progress in completing these recommendations at my Strategic Executive Board where I hold the Chief Constable to account.

Yn gywir Yours sincerely

Andy Dunbobbin
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru /North Wales Police and Crime Commissioner

01492 805486
OPCC@northwales.police.uk
www.northwales-pcc.gov.uk

O 25 Mai 2018 ymlaen mae'r rheoliadau sy'n berthnasol i brosesu gwybodaeth bersonol wedi newid. Gelwir y rhain yn Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC). Darllenwch ein Polisi Preifatrwydd sy'n cynnwys gwybodaeth ar sut ydym yn prosesu'ch gwybodaeth bersonol ac "Eich Hawliau" o dan RhDDC.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg, a byddwn yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg pe dymunir. Ni fydd gohebu yn Gymraeg gyda'r swyddfa yma yn arwain at oedi.

As from 25 May 2018 the regulations relating to processing personal information has changed. These are called General Data Protection Regulations (GDPR). Please read our Privacy Policy which contains information on how we process your personal information and "Your Rights" under GDPR.

We welcome receiving correspondence in Welsh, and will respond to correspondence in Welsh if desired. Corresponding in Welsh with this office will not lead to delay.